

Partneriaeth Gymdeithasol – Adroddiad Blynyddol Social Partnership – Annual Report

2024/2025



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cynnwys

1. Cefndir.....	3
2. Amcanion Llesiant y Cyngor.....	4
3. Fframweithiau Ymgynghori a Negodi Undebau Llafur Presennol o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC).....	5
4. Gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol 2024/25	6
5. Astudiaeth Achos - Gweithdai Partneriaeth Gymdeithasol.....	7

1. Cefndir

Ar 1 Ebrill 2024 daeth y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ("y Ddyletswydd") ar gyrff cyhoeddus i rym yng Nghymru. Mae'r Ddyletswydd wedi'i nodi yn adrannau 15, 16 a 18 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae'n ategu dyletswyddau llesiant presennol y mae cyrff cyhoeddus penodol eisoes yn destun iddynt o dan Ran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Wrth gyflawni datblygiad cynaliadwy, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i'r graddau y mae'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu, os nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr gweithwyr eraill, wrth osod eu hamcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny a bennir o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae adran 16(2) o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â nhw wrth 'geisio consensws neu gyfaddawdu'. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod undebau llafur neu gynrychiolwyr eraill o staff cyrff cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn briodol pan fydd corff cyhoeddus yn gosod ei amcanion llesiant, neu wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn nodi:

Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawdu, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):

- (a) ymgynghori â nhw ar gam ffurfiannol o'r broses, a**
(b) eu cynnwys fel arall drwy gydol y broses drwy:

- **darparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn a gynigir, a**
- **rhoi digon o amser i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn a gynigir ac ymateb.**

Effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru drwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol o fewn y broses o wneud penderfyniadau strategol.

Mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus o fewn cwrdd gynhyrchu adroddiad blynyddol i dystiolaethu sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i graffu arno.

Mae Adran 18 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn nodi:

(1) Rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

(2) Rhaid i'r adroddiad gael ei gytuno ag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (os nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill o'i staff neu gynnwys datganiad yn esbonio pam na chytunwyd arno.

(3) Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

2. Amcanion Llesiant y Cyngor

Datblygwyd pedwar amcan llesiant y Cyngor yn ystod 2022 yn dilyn asesiad anghenion cynhwysfawr a gweithgarwch ymgynghori gydag ystod o randdeiliaid allweddol gan gynnwys; preswylwyr, staff, undebau llafur, busnesau ac aelodau etholedig. Nod yr amcanion yw mynd i'r afael â heriau mwyaf dybryd Sir Gaerfyrddin, gan sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu cymaint ag sy'n bosibl i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- (a) Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda.
- (b) Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda.
- (c) Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus
- (d) Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon - *Ein Cyngor*.

Er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, maent yn cael eu hadolygu yn flynyddol ar ôl cyfnod o ymgynghori â'r rhanddeiliaid allweddol uchod. Mae'r heriau i'r Sir yn gyson â'r rhai a nodwyd yn 2022, ac felly mae ein hamcanion llesiant yn parhau i fod heb eu newid.

3. Fframweithiau Ymgynghori a Negodi Undebau Llafur Presennol o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC)

Mae gan CSC fframweithiau gwybodaeth, ymgynghori a negodi sydd wedi hen ennill eu plwyf ar waith gyda'i Undebau Llafur cydnabyddedig. Yr Undebau Llafur a gydnabyddir at ddibenion bargeinio ar y cyd yw:

- UNSAIN
- GMB
- Unite
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)

Mae'r fframweithiau presennol o ran cysylltiadau â gweithwyr yn darparu ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd o fewn yr Adrannau Cymunedau, Addysg a Phlant ac Adrannau Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn mynd i'r cyfarfodydd hyn.

Mae Fforwm Cysylltiadau Gweithwyr Corfforaethol, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol ac sy'n cael ei fynychu gan yr Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a Gweithlu a Threfnwyr Rhanbarthol Undebau Llafur (nid ysgolion), yn caniatáu i ymgynghori a negodi ddigwydd ar faterion corfforaethol sy'n ymwneud â gweithwyr y Cyd-gyngor Cenedlaethol

Mae'r Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd yn rhoi cyfle i gyfathrebu ac ymgynghori rhwng Arweinwyr Grŵp gwleidyddol Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) a chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur cydnabyddedig at ddibenion negodi (ar gyfer gweithwyr y Cyd-gyngor Cenedlaethol).

Yn ei gyhoeddiad esboniadol i gyrff cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan:

“Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd o weithio sydd wedi'i gynllunio i fynd ar drywydd buddiannau cydfuddiannol yng nghyd-destun datblygu a gweithredu polisi, neu newid gweithredol, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n bennaf fel fforymau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, bargeinio ar y cyd neu ymgynghori. Mae'n gweithio ar yr egwyddor sylfaenol y gall cyflogwyr a gweithwyr gyflawni mwy, yn bennaf drwy eu hundebau llafur, gan weithio gyda'i gilydd mewn ysbryd cydweithredu”

Er gwaethaf y fframweithiau ymgynghori a negodi sefydledig sy'n caniatáu rhyngwyneb rheolaidd â'r Undebau Llafur, mae dyfodiad partneriaeth gymdeithasol

yn rhoi cyfle nid yn unig i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn ond i ymdrechu i ddatblygu perthynas waith fwy cadarnhaol drwy bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, cydweithredu a gwelliant parhaus.

4. Gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol 2024/25

Drwy gydol y flwyddyn mae'r Cyngor wedi cynnal ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur drwy gadw ei fframweithiau sefydledig ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori rheolaidd, ond mae hefyd wedi ymdrechu i ymgysylltu ag ystod o faterion strategol sy'n effeithio ar y gweithlu.

Mae'r rhain wedi cynnwys trafodaethau ar ragolygon rheoli ariannol y Cyngor gyda chyflwyniad a wnaed i'r Undebau Llafur, ym mis Ionawr 2025, gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid., mewn perthynas â phennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2025/26

Mae'r Rheolwr Trawsnewid wedi rhoi cipolwg i'r Undebau Llafur (nid ysgolion) ar y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i adrannau corfforaethol i weithredu rhaglenni newid a all arwain at enillion effeithlonrwydd. Y gobaith yw y gall cydweithio ar sail barhaus gyda'r Undebau Llafur arwain at nodi effeithlonrwydd pellach, gan fod cydnabyddiaeth bod yr Undebau Llafur yn gallu cyflwyno profiadau "ymarferol" o arferion gwaith gan y rhai sy'n gweithredu o fewn lleoliadau gweithredol.

Mae'r Prif Swyddog Digidol wedi ymdrechu i werthuso dull Undebau Llafur y Cyngor, drwy ei Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial, i fanteisio i'r eithaf ar botensial deallusrwydd artiffisial a lleddfu pryderon am unrhyw effaith negyddol ar weithwyr.

Yn hyn o beth, mae cynnydd cynhyrchiant dangosadwy eisoes wedi'u cyflawni er budd ymarferwyr Gofal Cymdeithasol wrth allu cynhyrchu nodiadau achos mewn amserlen sylweddol fyrrach. Mae tasgau ailadroddus a thasgau sy'n cymryd llawer o amser sy'n gysylltiedig â recriwtio a dethol hefyd wedi gofyn am lefel llawer llai o fewnbwn gan staff sy'n eu galluogi i ganolbwyntio ar agweddau mwy ansoddol o'r broses. Mae'r Undebau Llafur yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i wasanaethau nodi cyfleoedd i groesawu atebion deallusrwydd artiffisial.

Fel sy'n rhan o ofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol â'r Undebau Llafur ym mis Mehefin 2024, ar ba raddau y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bodloni ei ofynion perfformiad fel sefydliad. Gofynnwyd i'r Undebau Llafur ymateb i nifer o gwestiynau ac mae'r wybodaetha gasglwyd yn galluogi CSC i adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd drwy weithgarwch ymgynghori tebyg sydd wedi digwydd yn flynyddol ers 2022.

Ar ben hynny, yn ystod 2025, mae CSC wedi bod yn destun Asesiad Perfformiad gan Banel i ddatblygu ei ddealltwriaeth o sut mae'n gweithredu a sut y gall sicrhau darparu gwasanaethau effeithiol yn y tymor hir. Fel rhan o'r asesiad, gofynnodd y

Panel am gyfarfod â chynrychiolwyr Undebau Llafur, ac ystyrir bod cyfraniad yr Undebau Llafur yn werthfawr iawn fel rhan o'r asesiad cyffredinol.

Wrth edrych ymlaen at 2025/26, bwriedir y bydd prosesau cyfathrebu presennol yn cael eu datblygu ymhellach er mwyn caniatáu ar gyfer yr ymgynghoriad cynharaf ag Undebau Llafur ar amcanion llesiant y Cyngor. Cydnabyddir yn llawn bod cyfathrebu cynnar ac ystyrion yn hanfodol i weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ac felly i fodloni disgwyliadau a gofynion y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

5. Astudiaeth Achos - Gweithdai Partneriaeth Gymdeithasol

Fel modd o wella gwell dealltwriaeth o bartneriaeth gymdeithasol, trefnodd Llywodraeth Cymru dair cynhadledd ar wahân ledled y wlad. Daeth swyddogion o'r Is-adran Pobl, Digidol a Pholisi yn ogystal â rhai o gynrychiolwyr undebau llafur CSC i'r digwyddiad yn Abertawe, a gynhaliwyd ddiwedd mis Medi 2024. Cafodd hyn ymateb da iawn gan y rhai a oedd yn bresennol ac o ganlyniad roedd y Prif Weithredwr o'r farn y byddai'n fanteisiol ymgysylltu ag arbenigedd ac annibyniaeth darparwr allanol, IPA, i hwyluso rhai gweithdai Partneriaeth Gymdeithasol. Y bwriad yw y gallai'r gweithdai hyn ddatblygu a chynnal perthynas waith gadarnhaol ymhellach drwy bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, cydweithredu a gwelliant parhaus.

Mae IPA yn awdurdod blaenllaw ar weithio mewn partneriaeth ar ôl cael ei noddi o'r blaen gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflwyno rhaglen o weithdai hyfforddi wedi'u hwyluso ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ym mis Ionawr 2025 rhoddodd IPA ei gynnig ar gyfer cyflwyno gweithdai ar wahân i'r Undebau Llafur ac i uwch-reolwyr gan gynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth eraill sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r Undebau Llafur. Gofynnwyd i'r Undebau Llafur am sylwadau, a chytunwyd y dylai'r gweithdai hyn gael eu cynnal ym mis Mawrth 2025.

Cynhaliwyd y gweithdai ar 4 a 6 Mawrth gyda'r nod o ystyried Partneriaeth Gymdeithasol o safbwyntiau'r Undebau Llafur a'r Uwch-reolwyr drwy:

- Archwilio safbwyntiau'r Undebau Llafur ac Uwch-reolwyr CSC ar weithio mewn partneriaeth
- Deall y meddwl y tu ôl i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ac egwyddorion gweithio mewn partneriaeth
- Nodi unrhyw rwystrau canfyddedig i weithio mewn partneriaeth a syniadau ar sut i weithio drwyddynt

Ar ôl adolygu'r wybodaeth a gasglwyd yn y gweithdai, argymhellodd IPA ei fod yn hwyluso gweithdy ar y cyd sy'n cynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol a chynrychiolwyr undebau llafur gyda'r nod o ateb dau gwestiwn:

- 1. Pa mor bell y gallwn ni fynd i ddatblygu dull partneriaeth ar hyn o bryd?**
- 2. Beth fydd pob un ohonom yn ei wneud i weithio gyda'n gilydd i ddatblygu hyn?**

Cynhaliwyd y gweithdy ar 15 Mai 2025 ac o ganlyniad gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Undebau Llafur gytuno i roi datganiad i Gabinet y Cyngor a fyddai'n adlewyrchu'r agweddau cadarnhaol yn y cyfarfod. Y testun y cytunwyd i'w gynnwys yn y datganiad:

“Credwn y bydd canlyniadau'r gweithdy hwn yn paratoi'r ffordd ar gyfer partneriaeth fwy cydweithredol ac effeithiol. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r ymgysylltiad cadarnhaol hwn ac adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd yn ystod y sesiwn hon. Roedd y gweithdy yn un lle rhannwyd gwirioneddau gan bob parti ond yn bwysicaf oll roedd yn gyfarfod cadarnhaol iawn ac yn rhoi sylfaen gadarn i ni ar gyfer perthynas waith llawer gwell yn y dyfodol”.

6. Adborth Undebau Llafur (Unsain, Unite a GMB)

Mae'r Undebau Llafur cydnabyddedig ar y cyd o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu fel partneriaid cymdeithasol gwirioneddol gyda'r Cyngor fel y'i diffinnir gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cymru 2023.

Mae'r Undebau Llafur eisiau gweld dull tryloyw ac ymrwymedig ar y cyd sy'n nodi'r newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni nodau cyffredin, sy'n dod â chanlyniadau cadarnhaol i'n haelodaeth. Mae angen i hyn gynnwys strategaeth y cytunwyd arni ar y cyd sy'n nodi'r camau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflwyno gweithio partneriaeth ystyrlon o fewn Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Undebau Llafur yn cydnabod bod strategaeth glir yn hanfodol wrth geisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a nodwyd yn y Ddeddf a gallu cyflawni nodau ar y cyd.

I'r perwyl hwnnw, gofynnwn i strategaeth fanwl gael ei datblygu ar y cyd sy'n nodi'r safonau uchaf fel y'u hymgorfforir yn y Ddeddf.